WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyflawni â llai – Gwasanaethau iechyd yr amgylchedd – Adolygiad dilynol – **Cyngor Caerdydd**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1492A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Caerdydd fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae adran 45 o'r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cyflawnwyd y gwaith gan Grant Thornton UK LLP o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae model y gwasanaethau rheoliadol a rennir (GRhR) yn galluogi'r Cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd mewn cyd-destun lle mae ei adnoddau'n lleihau a lle mae newidiadau deddfwriaethol parhaus yn rhoi mwy o gyfrifoldebau iddo. Mae cyfle i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau goruchwylio a sicrwydd annibynnol o ran y GRhR a chydweithio â phartneriaid y GRhR i bwyso a mesur cyfleoedd i wella yn y dyfodol.


Adroddiad cryno

Crynodeb 5

Cynigion gwella 7

Adroddiad manwl

Mae model y gwasanaethau rheoliadol a rennir (GRhR) yn galluogi'r Cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd mewn cyd-destun lle mae ei adnoddau'n lleihau a lle mae newidiadau deddfwriaethol parhaus yn rhoi mwy o gyfrifoldebau iddo. Mae cyfle i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau goruchwylio a sicrwydd annibynnol o ran y GRhR a chydweithio â phartneriaid y GRhR i bwyso a mesur cyfleoedd i wella yn y dyfodol 9

Mae'r adnoddau sydd ar gael i wasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi gostwng ers 2014-15 ond mae'r Cyngor wedi cynnal ei berfformiad drwy gydweithio â dau gyngor arall drwy'r GRhR 9

Er bod y Cyngor a'r GRhR yn hyderus bod y rhwymedigaethau o ran iechyd yr amgylchedd yn cael eu bodloni, nid yw'r naill na'r llall wedi asesu a yw hyn yn wir.Byddai'r Cyngor a'r GRhR yn elwa o gydweithio i wahaniaethu rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol i helpu i osod sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch unrhyw ostyngiadau i'r gyllideb yn y dyfodol 13

Mae'r fframweithiau llywodraethu a rheoli perfformiad yn gadarn ond byddai modd ffurfioli'r trefniadau i adolygu ac i herio'r wybodaeth am berfformiad 14

Mae cyfle i'r Cyngor wella lefel yr her annibynnol, y goruchwylio a'r craffu gan aelodau o ran y gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a ddarperir iddo gan y GRhR 16

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â rhanddeiliaid allanol allweddol ynghylch newidiadau sylweddol i wasanaethau iechyd yr amgylchedd, ond dylai ystyried yn fwy gofalus effaith newidiadau yn y dyfodol ar breswylwyr a busnesau ac ymgynghori'n uniongyrchol lle bo'n briodol 17

Rhaid i'r Cyngor a'r GRhR barhau i arloesi ac i drawsnewid gwasanaethau i helpu i liniaru unrhyw ostyngiadau i'r cyllid yn y dyfodol 18

## Atodiadau

Atodiad 1 – Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – Cyflawni â llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion, Hydref 2014 19

Atodiad 2 – Y cynnydd a wnaed gan y Cyngor i fynd i'r afael ag argymhellion 2 i 5 yr Archwilydd Cyffredinol 22

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Beth wnaethom ei adolygu a pham?

1 Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad cenedlaethol, **Cyflawni â llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion** (gweler Atodiad 1 i ddarllen argymhellion yr adroddiad hwnnw). Bu ein hadolygiad lleol yn 2019 yn asesu a oes unrhyw newidiadau wedi digwydd i gyllideb a staff gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor a'r graddau y mae wedi mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad cenedlaethol 2014. At ddibenion yr adolygiad hwn, buom yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor i fynd i'r afael ag argymhellion 2, 3, 4 a 5.

2 Mae cynghorau'n ysgwyddo nifer o ddyletswyddau iechyd yr amgylchedd statudol ac mae dinasyddion yn rhoi gwerth mawr ar lawer o'r gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a ddarperir. At hynny, mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd, llesiant a diogelwch preswylwyr ac ymwelwyr â Chymru.

3 Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cwmpasu nifer fawr o faterion, megis diogelwch bwyd, rheoli plâu, rheoli cŵn, tai a lleihau achosion ac effeithiau llygredd aer.

4 I osod sail ar gyfer ein canfyddiadau, buom yn cyf-weld detholiad o swyddogion ac aelodau y mae eu cylch gorchwyl yn cynnwys trefniadau iechyd yr amgylchedd Cyngor Caerdydd (y Cyngor). Buom hefyd yn adolygu dogfennau perthnasol.

5 Cynhaliwyd ein hadolygiad rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mehefin 2019.

### Cefndir

6 Ers 1 Mai 2015, mae Cyngor Caerdydd (y Cyngor), Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bro Morgannwg wedi bod yn gweithredu gwasanaeth ar y cyd a elwir yn Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR). Mae'r GRhR yn darparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, trwyddedu a safonau masnach. Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau eraill tu allan i fodel y GRhR ac fe'u rhestrir isod ym mharagraff 11.

7 Mae gan y GRhR dîm rheoli sy'n gweithio ar draws y tri chyngor. Mae'n gweithredu o dan gytundeb ar y cyd rhwng y cynghorau sy'n rhan o'r fenter. Fe'i llywodraethir gan Fwrdd Rheoli (sy'n cael ei arwain gan swyddogion) a Chydbwyllgor sy'n cynnwys chwe aelod etholedig, dau o bob cyngor.

8 Mae'r GRhR yn darparu gwasanaethau craidd (swyddogaethau sy'n gyffredin i bob cyngor) a gwasanaethau penodol sy'n unigryw i bob cyngor. Caiff y gwasanaethau craidd eu hariannu ar y cyd, ac mae cyfraniad pob cyngor yn seiliedig ar ei boblogaeth.

9 Sefydlwyd y GRhR i wneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau'r cynghorau ac i sicrhau bod modd i'r tri chyngor barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a lleihau costau ar yr un pryd.

10 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi asesiad o berfformiad gwasanaeth iechyd yr amgylchedd y Cyngor, gan gynnwys y gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan y Cyngor (cynelu cŵn, rheoli plâu a gorfodi amgylcheddol) a'r rheini a ddarperir ar y cyd drwy'r GRhR.

11 Mae Arddangosyn 1 isod yn nodi'r gwasanaethau a oedd yn rhan o gwmpas ein hadolygiad.

Arddangosyn 1 – gwasanaethau a oedd yn rhan o gwmpas ein hadolygiad

| Gwasanaethau a ddarperir gan y GRhR | Gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor |
|---|---|
| Rheoli llygredd<br>Diogelwch bwyd<br>Iechyd a diogelwch<br>Clefydau heintus<br>Tai'r sector preifat<br>Swyddogaeth iechyd porthladdoedd<br>Claddu/amlosgi pobl sydd wedi marw ar draul y cyhoedd<br>Trwyddedu<br>Sŵn yn y nos | Rheoli a chynelu cŵn<br>Rheoli plâu<br>Gorfodi amgylcheddol |

## Beth wnaethom ei ganfod?

12 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor yn dal i gyflawni ei rwymedigaethau statudol o ystyried yr heriau ariannol?

13 Yn gyffredinol, bu inni ganfod bod model y GRhR yn galluogi'r Cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd mewn cyd-destun lle mae ei adnoddau'n lleihau a lle mae newidiadau deddfwriaethol parhaus yn rhoi mwy o gyfrifoldebau iddo. Mae cyfle i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau goruchwylio a sicrwydd annibynnol o ran y GRhR a chydweithio â phartneriaid y GRhR i bwyso a mesur cyfleoedd i wella yn y dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- mae'r adnoddau sydd ar gael i wasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi gostwng ers 2014-15 ond mae'r Cyngor wedi cynnal ei berfformiad drwy gydweithio â dau gyngor arall drwy'r GRhR.
- er bod y Cyngor a'r GRhR yn hyderus bod y rhwymedigaethau o ran iechyd yr amgylchedd yn cael eu bodloni, nid yw'r naill na'r llall wedi asesu a yw hyn yn wir. Byddai'r Cyngor a'r GRhR yn elwa o gydweithio i wahaniaethu

rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol i helpu i osod sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch unrhyw ostyngiadau i'r gyllideb yn y dyfodol.

- mae fframweithiau llywodraethu a rheoli perfformiad y GRhR yn gadarn ond byddai modd ffurfioli'r trefniadau i adolygu ac i herio'r wybodaeth am berfformiad.
- mae cyfle i'r Cyngor wella lefel yr her annibynnol, y goruchwylio a'r craffu gan aelodau o ran y gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a ddarperir iddo gan y GRhR.
- mae'r Cyngor wedi ymgynghori â rhanddeiliaid allanol allweddol ynghylch newidiadau sylweddol i wasanaethau iechyd yr amgylchedd, ond dylai ystyried yn fwy gofalus effaith newidiadau yn y dyfodol ar breswylwyr a busnesau ac ymgynghori'n uniongyrchol lle bo'n briodol.
- rhaid i'r Cyngor a'r GRhR barhau i arloesi ac i drawsnewid gwasanaethau i helpu i liniaru unrhyw ostyngiadau i'r cyllid yn y dyfodol.

# Cynigion gwella

### Arddangosyn 2 – cynigion gwella

Mae'r tabl isod yn rhestru'r cynigion gwella a bennwyd gennym yn sgil yr adolygiad hwn. Sylwch fod y cynigion gwella yn berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir gan y GRhR a'r Cyngor, oni nodir yn wahanol.

| **Cynigion gwella** | |
|---|---|
| C1 | Cyn gwneud unrhyw newidiadau i wasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol, dylai'r Cyngor gynnal dadansoddiad manylach o'r costau, y buddion a'r effeithiau.<br>Canfuwyd rhywfaint o dystiolaeth bod y Cyngor wedi cyflawni dadansoddiad o'r costau/buddion/effeithiau er mwyn iddo benderfynu ynghylch arbedion a newidiadau i wasanaethau.<br>Fodd bynnag, er bod rhywfaint o ystyriaeth wedi'i rhoi i effaith ailstrwythuro'r strwythur staffio dros y cyfnod 2018-2021, cydnabu'r aelodau a'r swyddogion na fydd effaith wirioneddol y newid hwn yn wybyddus i raddau helaeth hyd nes bod yr arbedion o £498,000 yn dechrau cael effaith. |
| C2 | Dylai'r Cyngor ymchwilio i bosibiliadau pellach i fasnacheiddio gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, ac i gynhyrchu incwm ohonynt, i greu capasiti ariannol ychwanegol os bydd cyllid yn lleihau yn y dyfodol. |

| Cynigion gwella | |
|---|---|
| C3 | Pan fydd yn ystyried sut y gall fod angen i wasanaethau iechyd yr amgylchedd newid yn y dyfodol, dylai'r Cyngor sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol yn cael ei gofnodi'n glir a bod penderfynwyr yn deall y gwahaniaeth hwn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyfrifoldebau a phwerau statudol yn cael eu cloriannu a'u blaenoriaethu'n briodol ochr yn ochr â gwasanaethau dewisol. |
| C4 | Dylai'r Cyngor roi mwy o her annibynnol i lefel ac ansawdd y gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a ddarperir gan y GRhR o dan y Cytundeb Cydweithio. |
| C5 | Dylai'r Cyngor gydweithio â'r GRhR i gynnal adolygiad o'r trefniadau parhad busnes a chynllunio ar gyfer olyniaeth o ran y GRhR i liniaru'r risg o ddibynnu'n ormodol ar unigolion allweddol, fel Pennaeth y GRhR a'r rheolwyr gweithredol. |
| C6 | Dylai'r Cyngor gryfhau'r modd y mae'r aelodau etholedig yn goruchwylio ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd, er enghraifft, drwy graffu'n fwy rheolaidd ar y gwasanaethau a ddarperir gan drydydd partïon, gan gynnwys y GRhR. |
| C7 | Dylai'r Cyngor ystyried cyflwyno cyfleoedd datblygu a hyfforddi mwy strwythuredig wedi'u targedu ar gyfer aelodau perthnasol. Gall hyn fod yn fuddiol os bydd personél yn newid ac mewn meysydd lle mae deddfwriaeth iechyd yr amgylchedd yn newid e.e. llygredd aer/diogelwch bwyd/clefydau heintus. |
| C8 | Dylai'r Cyngor gysylltu unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch newidiadau i'r lefelau gwasanaeth yn gliriach ag asesiad o'r effaith ar randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys defnyddwyr y gwasanaeth a phreswylwyr. Dylid penderfynu a oes angen ymgynghori, a phenderfynu ar y dull mwyaf priodol o ymgynghori, fesul achos. Fodd bynnag, os yw'r newidiadau'n debygol o effeithio ar ddefnyddwyr y gwasanaeth, busnesau a phreswylwyr lleol, dylent gael gwybod am y penderfyniadau hyn a dylid ymgynghori â nhw yn eu cylch. |
| C9 | Mae angen i'r Cyngor adeiladu ar fentrau fel yr ap Sŵn i sicrhau bod modd lliniaru gostyngiadau ariannol yn y dyfodol drwy arloesi a thrawsnewid dulliau o ddarparu gwasanaethau ac i sicrhau bod modd i wasanaethau iechyd yr amgylchedd elwa ar dechnolegau newydd. |

# Adroddiad manwl

## Mae model y gwasanaethau rheoliadol a rennir (GRhR) yn galluogi'r Cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd mewn cyd-destun lle mae ei adnoddau'n lleihau a lle mae newidiadau deddfwriaethol parhaus yn rhoi mwy o gyfrifoldebau iddo. Mae cyfle i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau goruchwylio a sicrwydd annibynnol o ran y GRhR a chydweithio â phartneriaid y GRhR i bwyso a mesur cyfleoedd i wella yn y dyfodol


### Mae'r adnoddau sydd ar gael i wasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi gostwng ers 2014-15, ond mae'r Cyngor wedi cynnal ei berfformiad drwy gydweithio â dau gyngor arall drwy'r GRhR

14 Mae darparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd drwy'r GRhR yn darparu hyblygrwydd a chydnerthedd. Er bod yr adnoddau wedi lleihau, bu modd i'r GRhR symud adnoddau wrth i flaenoriaethau newid ac wrth i broblemau godi. Drwy'r GRhR, bu modd i'r Cyngor barhau i ddarparu rhai gwasanaethau iechyd yr amgylchedd anstatudol, megis digwyddiadau hylendid bwyd i gynorthwyo busnesau lleol.

15 Mae'r gost o ddarparu'r gwasanaethau hyn wedi gostwng o £3.378 miliwn yn 2011-12 i £2.735 miliwn yn 2018-19 (alldro refeniw cyfun Caerdydd a gwasanaethau'r GRhR ar gyfer Caerdydd), fel y'u dangosir yn Arddangosyn 3, ac mae hyn yn gyfwerth â gostyngiad o 19%.

Arddangosyn 3 – cost net gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, Caerdydd a'r GRhR gyda'i gilydd – y gyllideb refeniw o'i chymharu â'r alldro rhwng 2011-12 a 2019-20


(Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau a gadwyd gan y Cyngor yn ogystal â chost gwasanaethau craidd a gwasanaethau awdurdod-benodol y GRhR ar gyfer Caerdydd.)




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Cyflawni â llai – Gwasanaethau iechyd yr amgylchedd 2015, Cyngor Dinas Caerdydd a'r GRhR.

16 Y GRhR sy'n darparu'r rhan fwyaf o wasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor, ac eithrio rheoli cŵn, rheoli plâu, a gorfodi gollwng sbwriel a thipio anghyfreithlon. Mae Arddangosyn 4 isod yn darlunio cost y GRhR i'r tri chyngor, gan ddangos tuedd lle mae'r costau cyffredinol wedi gostwng ers creu'r GRhR. Gan fod y GRhR wedi cychwyn ar 1 Mai 2015, mae costau 2015-16 yn seiliedig ar 11 mis o'r flwyddyn yn unig.

Arddangosyn 4 – cyfanswm cost y GRhR i'r tri chyngor gyda'i gilydd (gan gynnwys gwasanaethau craidd a gwasanaethau awdurdod-benodol)




Ffynhonnell: Cyngor Dinas Caerdydd a'r GRhR.

17 Yn sgil creu'r GRhR, cafodd swm sylweddol o arian ei arbed ar unwaith o'i gymharu â chyfanswm cyllidebau gwasanaeth blaenorol y sefydliadau sy'n rhan o'r fenter. Mae'r GRhR wedi cytuno i ostwng y gyllideb 5% bob blwyddyn o 2018-19 tan 2020-21. Mae hyn yn gyfwerth â gostyngiad o £830,000 i'r gyllideb graidd (ac mae £476,000 o'r swm hwnnw'n berthnasol i gyfraniad Caerdydd). Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys holl wasanaethau'r GRhR, gan gynnwys y rheini sydd tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn, megis safonau masnach.

18 Pan sefydlwyd y GRhR, parhaodd y costau gweinyddol a'r gorbenion, megis costau adeiladau, yng ngofal y cynghorau unigol. Nid yw'r gorbenion hyn wedi'u cynnwys yng ngwybodaeth ariannol y GRhR (Arddangosyn 4) ond maent wedi'u cynnwys yn Arddangosyn 3.

19 Cyflawnodd y GRhR danwariant o £496,000 yn 2018-19, ac roedd modd iddo gadw £200,000 o'r arian hwnnw. Fe'i cyflawnwyd oherwydd swyddi gwag a'r camau a gymerwyd yn ystod 2018 i ailstrwythuro'r gwasanaeth. Mae'r Cydbwyllgor wedi cytuno y gall y GRhR gadw'r tanwariant hwn i'w fuddsoddi mewn mentrau i fynd i'r afael â'r swyddi gwag presennol, yn hytrach na'i ddychwelyd i'r cynghorau sy'n rhan o'r fenter. Mae hyn yn dangos bod y tri chyngor yn rhoi gwerth ar rôl y GRhR. Caiff gweddill y tanwariant ei ddychwelyd i'r cynghorau ar sail y fformiwla ariannu y cytunwyd arno.

20 Caiff sefyllfa alldro dros dro y GRhR yn 2018-19 ei darlunio yn Arddangosyn 5 isod.

Arddangosyn 5 – sefyllfa alldro dros dro y GRhR yn 2018-19


| Cyngor | Cyllideb gros £000 | Alldro £000 | Amrywiant £000 |
|---|---|---|---|
| **Caerdydd** | **4,978** | **4,789** | **189** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,774 | 1,602 | 172 |
| Bro Morgannwg | 1,752 | 1,617 | 135 |
| **Cyfanswm** | **8,504** | **8,008** | **496** |

Ffynhonnell: Papurau'r Cydbwyllgor ar 11 Mehefin 2019. Ffigurau ar gyfer yr holl wasanaethau a ddarperir gan y GRhR yw'r rhain ac maent yn cynnwys gwasanaethau sydd tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn, megis safonau masnach.

21 Mae niferoedd y staff wedi gostwng rhwng 2014 a 2019. Yn 2014, roedd y tri chyngor gyda'i gilydd yn cyflogi 151.15 aelod staff cyfwerth ag amser llawn. Yn 2019, mae'r GRhR a'r cynghorau gyda'i gilydd yn cyflogi 143.92 aelod staff cyfwerth ag amser llawn. Mae nifer y swyddi rheoli wedi gostwng yn sylweddol tra mae nifer y swyddogion cymwysedig a'r technegwyr wedi cynyddu. Caiff hyn ei ddarlunio yn Arddangosyn 6 isod.

22 Mae canran y gostyngiad yn yr arbedion cyllidebol yn gymharol uwch na chanran y gostyngiad yn nifer yr aelodau staff. Drwy gynnal adolygiad manwl o'r toriadau arfaethedig i nifer y staff, bu modd i'r GRhR barhau i ddarparu ei wasanaethau a chwtogi ei gostau'n sylweddol ar yr un pryd.

Arddangosyn 6 – niferoedd y staff (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogir gan y GRhR a'r tri chyngor gyda'i gilydd (Caerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr), 2014 o'i gymharu â 2019




Ffynhonnell: Ffigurau 2014 – Swyddfa Archwilio Cymru, Cyflawni â llai – Adolygiad o wasanaethau iechyd yr amgylchedd. Ffigurau 2019 – Cyngor Dinas Caerdydd a'r GRhR.

23 Canfuwyd rhywfaint o dystiolaeth bod y Cyngor wedi cyflawni dadansoddiad o'r costau, y buddion a'r effeithiau er mwyn iddo benderfynu ynghylch y gostyngiadau hyn i'r gyllideb. Fodd bynnag, er bod rhywfaint o ystyriaeth wedi'i rhoi i effaith ailstrwythuro'r strwythur staffio dros y cyfnod 2018-2021, cydnabu'r aelodau a'r swyddogion hefyd na fydd effaith wirioneddol y newid hwn ar wasanaethau, ac felly ar breswylwyr a busnesau lleol, yn wybyddus i raddau helaeth hyd nes bod yr arbedion o £498,000 a gafodd eu dileu o'r gyllideb yn 2019-20 yn dechrau cael effaith. Dylai unrhyw newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol fod yn destun dadansoddiad tryloyw a thrylwyr o'r costau, y buddion a'r effeithiau er mwyn rhagweld a rheoli'r risgiau sy'n codi.

24 Mae'r Cyngor yn gallu dangos i'w berfformiad o ran y rhan fwyaf o'i ddangosyddion perfformiad wella neu fod yn sefydlog dros gyfnod, er bod yr adnoddau wedi gostwng.

25 Mae'r GRhR yn rhoi adroddiadau i'r Cydbwyllgor am ddeg dangosydd sy'n ymwneud yn benodol â gwasanaethau'r Cyngor, ac eithrio safonau masnach. O blith y deg dangosydd hyn yn 2018-19, cyrhaeddodd wyth ohonynt eu targed ac, o blith yr wyth a gyrhaeddodd eu targed, dangosodd un bod y perfformiad yn gwella a dau ei fod yn dirywio.

## Er bod y Cyngor a'r GRhR yn hyderus bod y rhwymedigaethau o ran iechyd yr amgylchedd yn cael eu bodloni, nid yw'r naill na'r llall wedi asesu a yw hyn yn wir. Byddai'r Cyngor a'r GRhR yn elwa o gydweithio i wahaniaethu rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol i helpu i osod sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch unrhyw ostyngiadau i'r gyllideb yn y dyfodol

26 Mae Cytundeb Cydweithio'r GRhR yn rhwymo'r GRhR i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni gofynion statudol cyfreithiol-orfodol yn ogystal â gwasanaethau anstatudol dewisol. Mae'r Cytundeb Cydweithio'n nodi'r gweithgareddau a gyflawnir ym mhob maes gwasanaeth, ond nid yw'n nodi pa rai sy'n statudol.

27 Yn gyffredinol, roedd y swyddogion a gafodd eu cyf-weld yn gallu mynegi gofynion gwasanaethau statudol ac anstatudol yn eu meysydd cyfrifoldeb o fewn gwasanaethau iechyd yr amgylchedd.

28 O'i safbwynt ei hun, nid yw'r Cyngor wedi mynd ati'n benodol i asesu a yw ef neu'r GRhR yn bodloni ei ddyletswyddau statudol o ran iechyd yr amgylchedd.

29 Mewn achosion penodol, rydym yn nodi bod y Cyngor wedi dewis parhau i ddarparu gwasanaethau anstatudol i fodloni amcanion ehangach o ran iechyd y cyhoedd, er enghraifft, y gwasanaeth rheoli plâu a ddarperir gan y Cyngor.

30 Roedd y swyddogion a'r aelodau a gafodd eu cyf-weld yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd modd i'r Cyngor barhau i ddarparu'r un ystod o wasanaethau anstatudol yn y dyfodol pan fydd yn wynebu pwysau ariannol pellach.

31 Nid yw'r GRhR na'r Cyngor wedi asesu a yw'r Safonau Arferion Gorau[1] yn cael eu bodloni, er bod targedau perfformiad lleol wedi'u pennu.

32 Mae'r Cyngor yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau o ddarparu gwasanaethau, ac mae wedi dewis parhau i ddarparu gwasanaethau anstatudol sy'n flaenoriaeth i'w gynorthwyo i gyflawni amcanion corfforaethol ac amcanion iechyd y cyhoedd ehangach, megis y gwasanaeth rheoli plâu a ddarperir gan y GRhR.

33 Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r Cyngor wedi cynnal adolygiad i asesu'r graddau y mae'n bodloni ei rwymedigaethau statudol o ran iechyd yr amgylchedd, ac nid yw'r Cytundeb Cydweithio nac adroddiadau perfformiad y GRhR yn gwahaniaethu rhwng gwasanaethau statudol a dewisol.

34 O ddiffinio gwasanaethau statudol, yn ogystal â'r safonau perfformiad derbyniol isaf/uchaf, yn glir, byddai'n cynorthwyo'r Cyngor i fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg o wneud penderfyniadau ynghylch unrhyw newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol, gan gydbwyso'r gofynion statudol yn erbyn y blaenoriaethau strategol sy'n ymwneud â gwasanaethau anstatudol.

## Mae'r fframweithiau llywodraethu a rheoli perfformiad yn gadarn ond byddai modd ffurfioli'r trefniadau i adolygu ac i herio'r wybodaeth am berfformiad

35 Yn gyffredinol, mae system gadarn ar waith i reoli ac i fonitro perfformiad y GRhR bob chwarter, gydag aelodau'r Bwrdd Rheoli, y Cydbwyllgor a'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol yn craffu ar y perfformiad a'i herio.

36 Mae Cynllun Busnes y GRhR yn amlinellu gweledigaeth a blaenoriaethau'r gwasanaeth ac yn nodi sut y maent yn cyfrannu at y saith nod llesiant a blaenoriaethau a chanlyniadau corfforaethol pob un o'r cynghorau.

37 Mae amcanion iechyd yr amgylchedd y GRhR yn gydnaws ag amcanion strategol cyffredinol y Cyngor. Roedd y swyddogion a gafodd eu cyf-weld yn gallu mynegi sut y mae gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cyfrannu at eu cyflawni. Dywedodd y swyddogion a'r aelodau a gafodd eu cyf-weld na chafwyd unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau hyd yma rhwng y Cyngor a'r GRhR nac aelodau'r cynghorau sy'n rhan o'r fenter.

[1] Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru a Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, safonau arferion gorau. Mae'r safonau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i roi sylw i newidiadau i'r canllawiau statudol, i effaith deddfwriaeth newydd neu'r gyfraith achosion, ac i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau. Mae'r safonau'n diffinio gweithgareddau ym mhob un o'r meysydd gwasanaeth ac yn pennu nodweddion gwasanaeth sy'n bodloni'r safon ofynnol, gwasanaeth o safon dda, ac arferion gorau ym mhob un o'r meysydd.

38 Mae gan y Cydbwyllgor awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau o ran y GRhR ac mae'n monitro perfformiad y GRhR, gan osgoi dyblygu a galluogi tryloywder a chynrychiolaeth wleidyddol ar yr un pryd.

39 Mae'r Bwrdd Rheoli a'r Cydbwyllgor yn cael adroddiadau perfformiad chwarterol a blynyddol yn unol â gofynion y Cytundeb Cydweithio. Mae'r adroddiadau perfformiad yn seiliedig yn bennaf ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, wedi'u hategu gan wybodaeth ansoddol, megis cwynion gan y cyhoedd neu arolygon ymhlith cleientiaid. Mae'r adroddiadau perfformiad yn trafod perfformiad y cynghorau unigol, yn ogystal â'r GRhR yn ei gyfanrwydd, ac maent yn dadansoddi'r tueddiadau dros gyfnod o hyd at bedair blynedd. Rydym yn tybio bod yr adroddiadau'n gynhwysfawr a bod hyd a lled y data'n ddigonol i sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau mewnol gwybodus.

40 Defnyddir gwybodaeth reoli i roi cipolwg cyfannol ar lefel ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Lle bo modd, caiff y perfformiad o ran targedau mewnol ei gymharu â chyfres o feincnodau cenedlaethol hefyd.

41 Mae'r GRhR wedi gallu cynnal neu wella ei berfformiad yn y rhan fwyaf o'r meysydd. Os yw'r perfformiad wedi dirywio, caiff y rhesymau a'r camau unioni eu datgan yn glir.

42 Tu allan i'r cylch adolygu perfformiad chwarterol, mae Pennaeth y GRhR, y Rheolwyr Gweithredol a swyddogion ac aelodau'r cynghorau unigol yn cyfarfod bob mis. Yn aml, trafodir materion gweithredol a materion perfformiad penodol yn anffurfiol yn y cyfarfodydd hyn.

43 Mae gan y Cyngor hefyd drefniadau rheoli perfformiad corfforaethol, ac maent yn cynnwys Metrigau Atebolrwydd Cyhoeddus perthnasol. Bu modd inni gadarnhau bod y dangosyddion perfformiad yr adroddir yn eu cylch yn Adroddiad Blynyddol y GRhR yn gyson â'r rheini a adroddir ac a gedwir yn system gwybodaeth gorfforaethol y Cyngor.

44 O ran y gwasanaethau hynny a ddarperir gan y Cyngor, nid y GRhR, megis rheoli plâu a chŵn, pennaeth y gwasanaeth sy'n monitro'r perfformiad, gan roi adroddiadau i'r Cyfarwyddwr. Eir i'r afael ag unrhyw broblemau o ran perfformiad drwy'r fframwaith perfformiad corfforaethol. Ni phennwyd unrhyw broblemau o ran perfformiad y gwasanaethau hyn yn ystod ein hadolygiad.

45 Mae'r swyddogion a'r aelodau'n teimlo bod y trefniadau a ddisgrifir uchod yn effeithiol. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod y trefniadau presennol i adolygu ac i herio gwybodaeth am berfformiad yn gymharol anffurfiol ac yn dibynnu ar berthynas waith gadarnhaol rhwng y GRhR a swyddogion ac aelodau'r Cyngor. Er bod hyn yn gweithio'n dda ar hyn o bryd, ceir risg na fydd yn gydnerth os bydd amgylchiadau annisgwyl yn codi, megis diffyg sylweddol mewn gwasanaeth neu newid i'r personél allweddol.

## Mae cyfle i'r Cyngor wella lefel yr her annibynnol, y goruchwylio a'r craffu gan aelodau o ran y gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a ddarperir iddo gan y GRhR

46 Mae Pwyllgor Craffu Amgylcheddol y Cyngor yn craffu ar faterion iechyd yr amgylchedd sy'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir gan y GRhR ac yn uniongyrchol gan y Cyngor. Mae'r pwyllgor yn cwrdd 11 gwaith y flwyddyn ac mae'n ystyried Adroddiad Blynyddol a Chynllun Busnes y GRhR, yn ogystal â materion gorchwyl a gorffen penodol, megis ansawdd aer a rheoli plâu. Mae'r cofnodion yn dangos bod argymhellion wedi'u gwneud o ganlyniad i'r adolygiadau hyn. Mae Pennaeth a Rheolwyr Gweithredol y GRhR yn mynd i'r cyfarfodydd hyn yn ôl y gofyn.

47 Mae'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion yn ystyried materion iechyd yr amgylchedd sy'n ymwneud â thai.

48 Mae'r dogfennau a ddarperir i'r aelodau'n gynhwysfawr ac maent yn eu galluogi i asesu perfformiad y GRhR ar sail y Cynllun Busnes ac i ddeall yr heriau y bydd yn eu hwynebu yn y dyfodol.

49 Mae gan y Cyngor raglen gynefino ar gyfer aelodau newydd a hyfforddiant gorfodol ar gyfer yr aelodau hynny sy'n rhan o'r pwyllgor trwyddedu. Darperir cymorth gan swyddogion yn ystod rhag-gyfarfodydd hefyd. Cynhelir rhag-gyfarfodydd byrion 15 munud o hyd lle mae'r aelodau'n cael cyfle i ofyn cwestiynau. Dylai'r Cyngor ystyried cyflwyno cyfleoedd datblygu a hyfforddi mwy strwythuredig wedi'u targedu ar gyfer aelodau perthnasol. Gall hyn fod yn fuddiol er mwyn i aelodau newydd ymgyfarwyddo â'r gwasanaeth a meysydd lle mae'r ddeddfwriaeth yn newid e.e. llygredd/diogelwch bwyd/clefydau heintus.

50 Mae Pennaeth y GRhR yn cynnal cyfarfodydd misol ar wahân â'r Aelod Cabinet a Chadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu yn rhinwedd eu rôl fel aelodau o'r Cydbwyllgor. Ar gais aelodau unigol, cynhelir cyfarfodydd a darperir cymorth *ad hoc*. Roedd y cynghorwyr a'r aelodau a gafodd eu cyf-weld yn teimlo bod hon yn berthynas ddwyffordd gadarnhaol.

51 Roedd cadeiryddion ac aelodau'r pwyllgorau craffu a gafodd eu cyf-weld yn teimlo bod y cymorth *ad hoc* a ddarperir gan Bennaeth a Rheolwyr Gweithredol y GRhR yn ddigonol er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

52 Ar hyn o bryd, unigolion sy'n ymwneud yn helaeth â'r gwasanaeth a pharatoi'r wybodaeth am berfformiad y GRhR sy'n craffu arni, ac mae hyn yn peri risg o ran gwahanu dyletswyddau / hunan-fudd. Felly, argymhellir y dylai'r Cyngor gyflwyno trefniadau mwy annibynnol i adolygu ac i herio perfformiad y GRhR ar sail y safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt, fel y dylai ei wneud ar gyfer unrhyw ddarparwr trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor.

53 Mae Archwilio Mewnol yn ffynhonnell sicrwydd annibynnol arall y gall y cynghorau sy'n aelodau o'r fenter ei defnyddio. Cynhaliodd Cydwasanaeth Archwilio Mewnol Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg adolygiad o Drefniadau Llywodraethu a

Rheolaethau Ariannol y GRhR yn 2019-20, dyddiedig Mehefin 2019. Rhoddodd yr adolygiad sicrwydd sylweddol.

## Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â rhanddeiliaid allanol allweddol ynghylch newidiadau sylweddol i wasanaethau iechyd yr amgylchedd, ond dylai ystyried yn fwy gofalus effaith newidiadau yn y dyfodol ar breswylwyr a busnesau ac ymgynghori'n uniongyrchol lle bo'n briodol

54 Yn ein hadroddiad cenedlaethol yn 2014 am wasanaethau iechyd yr amgylchedd, bu inni argymell y dylai cynghorau ymgysylltu'n well â phreswylwyr lleol ynghylch eu cynlluniau i dorri cyllidebau ac i newid gwasanaethau (gweler Atodiad 1). I wneud penderfyniadau gwybodus, mae angen i swyddogion ac aelodau ddeall effaith unrhyw newidiadau ar bob rhanddeiliad. Gallai newidiadau i wasanaethau iechyd yr amgylchedd effeithio ar amryw o randdeiliaid, yn rhai allanol fel busnesau, preswylwyr lleol ac asiantaethau eraill, ac yn rhai mewnol, fel staff ac undebau llafur.

55 Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad helaeth yn 2013-14 cyn sefydlu'r GRhR, gan gynnwys ymgynghori â staff, undebau llafur, aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill fel yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd. Yn yr un modd, ymgynghorwyd â staff ac undebau llafur ynghylch lleihau staff y GRhR yn 2018.

56 Yn 2019-20, cynyddodd y Cyngor ffi ei hysbysiad cosb benodedig am ollwng sbwriel o £80 i £100. Cyn cynyddu'r ffi hon, bu'r Cyngor yn ymgynghori â'r cyhoedd drwy'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb flynyddol.

57 Ac eithrio'r enghraifft uchod, gan fod y Cyngor wedi bod yn darparu'r un gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn fras ers 2015, nid yw wedi ymgynghori â'r cyhoedd o gwbl ynghylch gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ers sefydlu'r GRhR.

58 Rydym yn cydnabod bod y GRhR wedi dewis peidio â chynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch newidiadau gweinyddol pan nad oes disgwyl iddynt effeithio ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen.

59 Mae'r GRhR wedi sefydlu ei frand a'i wefan ei hun, ac mae'n darparu gwybodaeth helaeth am ei wasanaethau. Ar y wefan, gall preswylwyr lleol gael mynediad at wasanaethau, rhoi gwybod am faterion hylendid bwyd, a darllen dogfennau allweddol megis cynllun busnes y GRhR. Fodd bynnag, nid yw'n gwahodd sylwadau ac adborth gan y cyhoedd na busnesau ar hyn o bryd.

60 Mae'r GRhR yn gwneud defnydd gweithredol o'r cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth ag ystod eang o randdeiliaid, ac mae'n mynd ati bob mis i adolygu unrhyw wybodaeth ac adborth a gafwyd drwy'r sianeli cyfryngau cymdeithasol. Caiff yr adborth hwn ei ystyried mewn trafodaethau rheoli gweithredol.

61 Wrth i’r cyfyngiadau ar adnoddau gynyddu, gall fod angen i’r Cyngor wneud penderfyniadau ynghylch sut y caiff gwasanaethau iechyd yr amgylchedd eu darparu, ac fe allai’r rhain effeithio ar breswylwyr. Dylai preswylwyr lleol gael gwybod am y penderfyniadau hyn, a dylid ymgynghori â nhw yn eu cylch.

## Rhaid i’r Cyngor a’r GRhR barhau i arloesi ac i drawsnewid gwasanaethau i helpu i liniaru unrhyw ostyngiadau i’r cyllid yn y dyfodol

62 Oherwydd y gostyngiadau cychwynnol i’r gyllideb yn sgil sefydlu’r GRhR, a’r toriadau staff sy’n mynd rhagddynt, nid yw’r Cyngor wedi mynd ati hyd yma i archwilio’r posibiliadau pellach i fasnacheiddio gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, ac eithrio rhywfaint o weithgarwch cynhyrchu incwm ym maes rheoli plâu.

63 Er enghraifft, mae awdurdodau eraill wedi mynd ati i ddarparu gwasanaethau drwy gontractau allanol, ystyried cyflwyno taliadau sy’n seiliedig ar brawf modd ar gyfer gwasanaethau anstatudol, neu sefydlu cwmnïau masnachu i ddefnyddio asedau’r cyngor i gynhyrchu refeniw. Mae hyn yn rhywbeth y gall fod yn ddefnyddiol ei ystyried yn y dyfodol agos wrth i’r pwysau ar adnoddau gynyddu.

64 Bydd angen parhau i wneud arbedion, felly mae angen i’r GRhR barhau i chwilio am ffyrdd arloesol a newydd o ddarparu gwasanaethau ac ystyried siâp gwasanaethau yn y dyfodol.

65 Ymhlith y meysydd lle byddai modd arloesi a chreu cyfleoedd i gynyddu incwm yn y dyfodol mae:

- cyflwyno modelau cyflenwi masnachol a chydweithredol newydd ar gyfer gwasanaethau neu’r GRhR yn ei gyfanrwydd;
- defnyddio data i ragweld yr angen am wasanaeth ac i dargedu ymatebion yn hytrach na chynnal darpariaeth o wasanaethau cyffredinol;
- darparu mwy o gymorth strategol ac integreiddio ag agendâu gwasanaethau ehangach y Cyngor, gan gynnwys iechyd y cyhoedd, diogelwch cymunedol, iechyd a gofal cymdeithasol, cynllunio, a thwf economaidd.

66 Mae’r GRhR wedi dechrau ymchwilio i fentrau digidol ac mae’n treialu ap Sŵn i roi gwybod am broblemau. Fodd bynnag, mae’r rhain yn ddyddiau cynnar ac nid yw’r gwaith hwn yn cael effaith sylweddol ar gostau nac ansawdd gwasanaethau hyd yma.

# Atodiad 1

## Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – Cyflawni â llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion, Hydref 2014

Fel rhan o'i gyfres 'cyflawni â llai' o astudiaethau gwella llywodraeth leol, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad, **Cyflawni â llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion**, ym mis Hydref 2014. Roedd yr adroddiad yn cynnwys chwe argymhelliad a nodir isod:

Arddangosyn 7 – argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

| Argymhelliad | Partneriaid cyfrifol |
|---|---|
| A1 Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru;<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. | Cynghorau, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru |
| A2 Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau;<br>• defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion;<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

| Argymhelliad | Partneriaid cyfrifol |
| --- | --- |
| A4 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau;<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain;<br>• pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion;<br>• gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf;<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru |

| Argymhelliad | | Partneriaid cyfrifol |
|---|---|---|
| A5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng ‘cost: budd: effaith’ a defnyddio’r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol;<br>• cytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | Cynghorau |
| A6 | Nodi’n glir yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau o dan ddeddfwriaeth tai ac iechyd newydd a chytuno sut y caiff y dyletswyddau newydd hyn eu cyflawni. | Llywodraeth Cymru<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

# Atodiad 2

## Y cynnydd a wnaed gan y Cyngor i fynd i'r afael ag argymhellion 2 i 5 yr Archwilydd Cyffredinol

Crynodeb o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor i fynd i'r afael ag argymhellion 2 i 5 yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad **Cyflawni â llai: yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion** (Hydref 2014).

Arddangosyn 8 – y cynnydd a wnaed gan y Cyngor i fynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

| Argymhelliad | | Y cynnydd a wnaed gan y Cyngor i fynd i'r afael â'r argymhelliad |
|---|---|---|
| A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Mae gan y Cyngor raglen gynefino ar gyfer aelodau newydd a hyfforddiant gorfodol ar gyfer yr aelodau hynny sy'n rhan o'r pwyllgor trwyddedu. Darperir cymorth gan swyddogion hefyd drwy rag-gyfarfodydd, sef cyfarfodydd byrion 15 munud o hyd lle gall yr aelodau ofyn cwestiynau.<br>Ac eithrio trwyddedu, nid oes ganddo raglen hyfforddi bwrpasol ar gyfer iechyd yr amgylchedd. Mae Pennaeth y GRhR yn cynnal cyfarfodydd misol â chadeirydd y pwyllgor craffu ac arweinydd y portffolio yn y cabinet. Ar gais aelodau unigol, cynhelir cyfarfodydd a darperir cymorth *ad hoc*.<br>Er na chodwyd unrhyw bryderon yn ystod ein cyfarfodydd, rydym yn credu y byddai'r aelodau'n elwa o gyflwyno rhaglen hyfforddi/datblygu fwy strwythuredig. |

| Argymhelliad | Y cynnydd a wnaed gan y Cyngor i fynd i'r afael â'r argymhelliad |
|---|---|
| A3 Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau;<br>• defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion;<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad helaeth yn 2013-14 cyn sefydlu'r GRhR, gan gynnwys ymgynghori â staff, undebau llafur, aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill fel yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd.<br>Yn 2018-19 a 2019-20, gwnaed newidiadau pellach i'r GRhR a gostyngiadau pellach i'w gyllideb, gan gynnwys lleihau nifer y staff.<br>Cynhaliwyd ymgynghoriad, gan gynnwys ymhlith staff a'r undebau llafur. Fodd bynnag, ni chafodd preswylwyr lleol na defnyddwyr gwasanaethau eu cynnwys yn y prosesau ymgynghori ynghylch y ddau newid hyn.<br>Mae'r Cyngor wedi ymgynghori ynghylch cynyddu'r hysbysiadau cosb benodedig am ollwng sbwriel.<br>Rydym yn cydnabod bod y GRhR wedi dewis peidio â chynnal ymgynghoriad cyhoeddus pan nad oes disgwyl i newidiadau effeithio ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen, ond rydym yn argymell y dylai ystyried a chofnodi'r effaith debygol ar yr holl randdeiliaid. Rydym yn cydnabod y gall fod yn amhriodol ymgynghori â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaethau am bob newid, ond dylid cofnodi'r sail resymegol dros y penderfyniad hwn ac ystyried yr effaith debygol. |

<table>
<tr><th>Argymhelliad</th><th>Y cynnydd a wnaed gan y Cyngor i fynd i’r afael â’r argymhelliad</th></tr>
<tr><td>A4 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:
<ul>
<li>nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau;</li>
<li>cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni’r rhain;</li>
<li>pennu ‘safon dderbyniol o berfformiad’ ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion;</li>
<li>gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:
<ul>
<li>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;</li>
<li>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â’r safonau y cytunwyd arnynt;</li>
<li>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy’n cynhyrchu incwm;</li>
<li>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau’r effaith a’r elw mwyaf;</li>
<li>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd.</li>
</ul></li>
</ul></td>
<td>Mae’r Cyngor wedi gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian. Mae wedi cynnal ei berfformiad drwy gydweithio ag eraill a chyflwyno’r GRhR.<br><br>Drwy gydweithio â chynghorau Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr, gall ddarparu ei wasanaethau mewn ffordd fwy hyblyg a chynaliadwy, ac ni fu’n rhaid iddo gyfyngu ar y gwasanaethau a ddarperir ganddo, er ei fod yn chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o’u darparu.<br><br>Mae’r GRhR yn darparu gwasanaethau statudol cyfreithiol-orfodol a gwasanaethau anstatudol dewisol. Mae’r Cytundeb Cydweithio’n nodi’r swyddogaethau ac yn rhestru'r tasgau ym mhob maes gwasanaeth, ond nid yw’n nodi pa rai sy’n statudol.<br><br>Pan fydd yn ystyried sut y gall fod angen i wasanaethau iechyd yr amgylchedd newid yn y dyfodol, dylai’r Cyngor sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol yn cael ei gofnodi’n glir a bod penderfynwyr yn deall y gwahaniaeth hwn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyfrifoldebau a phwerau statudol yn cael eu cloriannu a’u blaenoriaethu’n briodol ochr yn ochr â gwasanaethau dewisol.</td></tr>
</table>

| Argymhelliad | Y cynnydd a wnaed gan y Cyngor i fynd i'r afael â'r argymhelliad |
|---|---|
| A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol;<br>• cytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | Mae Cynllun Busnes y GRhR yn amlinellu gweledigaeth a blaenoriaethau'r gwasanaeth ac yn nodi sut y maent yn cyfrannu at y saith nod llesiant a blaenoriaethau a chanlyniadau corfforaethol pob un o'r cynghorau. Mae'r GRhR yn cydweithio â'r gwasanaethau a ddarperir gan bob un o'r cynghorau unigol tu allan i'r Cytundeb Cydweithio e.e. gwasanaeth rheoli plâu Caerdydd.<br>Mae amcanion iechyd yr amgylchedd yn gydnaws ag amcanion strategol cyffredinol y Cyngor, ac roedd y swyddogion a gafodd eu cyf-weld yn gallu mynegi sut y mae gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cyfrannu at eu cyflawni. Caiff data ariannol a data perfformiad eu hadolygu bob chwarter, ac rydym wedi gweld tystiolaeth sy'n dangos eu bod yn destun craffu priodol a her briodol. Mae rhai mentrau digidol yn cael eu treialu i wella'r dull o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.<br>Canfuwyd rhywfaint o dystiolaeth bod y Cyngor wedi cyflawni dadansoddiad o'r costau, y buddion a'r effeithiau er mwyn iddo benderfynu ynghylch y gostyngiadau hyn i'r gyllideb. Fodd bynnag, er bod rhywfaint o ystyriaeth wedi'i rhoi i effaith ailstrwythuro'r strwythur staffio dros y cyfnod 2018-2021, cydnabu'r aelodau a'r swyddogion hefyd na fydd effaith wirioneddol y newid hwn ar wasanaethau, ac felly ar breswylwyr a busnesau lleol, yn wybyddus i raddau helaeth hyd nes bod yr arbedion o £498,000 a gafodd eu dileu o'r gyllideb yn 2019-20 yn dechrau cael effaith. Dylai unrhyw newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol fod yn destun dadansoddiad tryloyw a thrylwyr o'r costau, y buddion a'r effeithiau er mwyn rhagweld a rheoli'r risgiau sy'n codi.<br>Mae'r GRhR yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â rhanddeiliaid, ond mae'r defnydd o wybodaeth ddigidol i gynllunio ac i ddatblygu gwasanaethau amgylcheddol yn y dyfodol yn gyfyngedig. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru